



Ysgol Pentreuchaf

91. Polisi Gwahaniaethu

Nod

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwahaniaethu yn y dosbarth er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig yr addysg orau bosibl, wedi ei dargedu at anghenion pob plentyn yn ôl ei oed a'i allu.

Amcanion

1. Dilyn canllawiau Cynllun Addysg Unigol i blant ADY.
2. Sicrhau fod gennym wybodaeth am blant sy'n tangyflawni, a'u targedu.
3. Datblygu hyder ym mhob plentyn o'i werth personol a balchder yn ei waith.
4. Cynllunio'n wahaniaethol ar gyfer rhai tasgau penodol.
5. Amrywio'r ffyrdd o wahaniaethu ar lawr y dosbarth h.y. drwy gyflwyniad, trwy dasg, drwy gynhaliaeth a thrwy ymateb.
6. Sicrhau bod trefniadaeth y dosbarth yn atgyfnerthu'r elfen o wahaniaethu.
7. Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ac unrhyw staff ategol o fewn y dosbarth.

Canllawiau

1. Sicrhau addysgu gwahaniaethol i blant sydd ar y Gofrestr ADY drwy'r Cynllun Addysg Unigol.
2. Gwneud defnydd o gymorthyddion i ymestyn plant sy'n cael anhawster ac i blant yr haen uchaf.
3. Drwy adnabyddiaeth cywir o allu plentyn, sicrhau disgwyladau priodol.
4. Talu sylw i addasrwydd yr ystod amser a osodwyd.
5. Cynllunio'n wahaniaethol yn ôl gallu'r plant o fewn pob dosbarth (3 haen neu fwy pan fo'n berthnasol) gan fod yn ymwybodol o lefel yr her mewn tasgau.
6. Fel isafswm, cynllunio a pharatoi gweithgareddau yn gwahaniaethu ar dair lefel – gallu is, canolig ac uwch. Paratoi ar gyfer mwy o haenau/grwpiau disgyblion/disgyblion unigol fel bo'n berthnasol.
7. Amrywio'r dull o grwpio plant – h.y. yn ôl oedran, gallu, blwyddyn, cyfeillgarwch, iaith a rhyw. Sicrhau bod cydbwysedd priodol o ran gweithgareddau unigolion, parau, grwpiau a dosbarth cyfan. Grwpiau hyblyg – gwahanol allu i wahanol weithgareddau e.e. Mathemateg / Addysg Gorfforol. Mae angen grwpiau cymysg eu gallu ar adegau.
8. Cymryd i ystyriaeth lefel cyrhaeddiad y plant ac amrywio'r ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth. Sicrhau bod amrywiaeth o ddulliau wrth ymateb i waith plant, ac wrth gynnig cynhaliaeth.
9. Cofio fod gwahanol blant yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd – VAK (visual / auditory / kinesthetic) a bod y plant hynaf yn medru unodi pa un sydd yn gweddu orau iddynt.
10. Y Cydlynnydd i sicrhau bod Cynlluniau Addysg Unigol ar gyfer pob plentyn a'r athrawes ddosbarth i gymryd cyfrifoldeb o'i ddefnyddio, trafod targedau gyda'r plentyn a.y.y.b.
11. Sicrhau bod unrhyw gymhorth allanol a chymorthyddion yn cyd weithio â'r staff a'u bod yn ymwybodol o'r disgwyladau.

Casgliad

Cyflawni gofynion rhannau perthnasol Polisi Cyfle Cyfartal gan sicrhau bod pob plentyn yn derbyn yr addysg orau i ateb i'w anghenion.

Sicrhau bod y staff yn deall yr amrywiaeth eang o ffyrdd o wahaniaethu sydd yn bosibl, a bod hyn yn arwain at ddatblygu pob unigolyn i'w lawn botensial gan roi'r cyfle iddo/iddi dderbyn yr un profiadau ond ar ei lefel ei hunan.

Adolygir: Chwefror 2017

**Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y
Llywodraethwyr**

Dyddiad: _____